Datganiad dwyieithog yw hwn. Mae'r fersiwn Saesneg yma.

This is a bilingual media release. The English version can be read here.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

# DATGANIAD I'R WASG

# MEDIA RELEASE

Embargo tan 00:01, dydd Iau 14 Gorffennaf 2016

## Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Mae Nick Ramsay AC, Cadeirydd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol, wedi rhyddhau'r datganiad a ganlyn mewn ymateb i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, "Llywodraeth Cymru yn Ariannu Kancoat Ltd".

Dywedodd Mr Ramsay:

"Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi'n glir hanes y cymorth ariannol y mae Llywodraeth Cymru wedi'i roi i Kancoat Ltd a'r golled anadferadwy bosibl o hyd at £1.5 miliwn y mae Llywodraeth Cymru yn ei hwynebu gyda'r cwmni bellach wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr.

"Yn anochel, ni fydd pob busnes sy'n elwa o gymorth ariannol a chymorth arall gan Lywodraeth Cymru yn llwyddiannus.

"Serch hynny, mae'n bwysig bod y risgiau sy'n gysylltiedig â chyllid busnes yn cael eu rheoli'n effeithiol ac mae'n amlwg bod gwersi pwysig yn cael eu dysgu o'r achos penodol hwn.

"Bydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol maes o law a gallai benderfynu cymryd tystiolaeth bellach ar ei ganfyddiadau."

**Nodiadau i olygyddion**

I gael rhagor o wybodaeth neu i drefnu cyfweliad, gwneud cais am luniau neu gais ffilmio, ffoniwch 0300 200 7487, neu anfonwch neges e-bost at newyddion@cynulliad.cymru.

Mae rhagor o wybodaeth am y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar gael yma.

Mae'r adroddiad llawn "Llywodraeth Cymru yn Ariannu Kancoat Ltd" ar gael gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Cymraeg

Saesneg